**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 2 Rhagfyr 2021 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorydd(wyr)**
C Anderson
P M Black
J E Burtonshaw
M C Child
J P Curtice
N J Davies
A M Day
P Downing
C R Doyle
M Durke
C R Evans
V M Evans
W Evans
E W Fitzgerald
R Francis-Davies
S J Gallagher
L S Gibbard
F M Gordon
K M Griffiths
D W Helliwell
T J Hennegan
C A Holley

**Y Cynghorydd(wyr)**
P R Hood-Williams
B Hopkins
D H Hopkins
L James
O G James
Y V Jardine
L R Jones
M H Jones
M Jones
P K Jones
S M Jones
E T Kirchner
M A Langstone
H Lawson
A S Lewis
M B Lewis
R D Lewis
W G Lewis
C E Lloyd
P Lloyd
I E Mann
P M Matthews

**Y Cynghorydd(wyr)**
P N May
H M Morris
D Phillips
C L Philpott
S Pritchard
J A Raynor
C Richards
K M Roberts
B J Rowlands
M Sherwood
R V Smith
A H Stevens
R C Stewart
D G Sullivan
M Thomas
L G Thomas
L J Tyler-Lloyd
G D Walker
L V Walton
T M White

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J A Hale, J W Jones, E J King, A Pugh, G J Tanner a/ac W G Thomas

---

**76. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ar eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog gysylltiad i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, P M Black, J E Burtonshaw, M C Child, J P Curtice, N J Davies, A M Day, P Downing, C R Doyle, M Durke, C R Evans, V M Evans, W Evans, E W Fitzgerald, R Francis-Davies, S L Gallagher, L S Gibbard, F M Gordon, K M Griffiths, D W Helliwell, T J Hennegan, C A Holley, P R Hood-Williams, B Hopkins, D H Hopkins, O G James, L James, Y V Jardine, L R Jones, M H Jones, M Jones, P K Jones, S M Jones, E T Kirchner, M A Langstone, H Lawson, A S Lewis, M B Lewis, R D Lewis, W G Lewis, C E Lloyd, P Lloyd, I E Mann, P M Matthews, P N May, H M Morris, D Phillips, C L Philpott, S Pritchard, J A Raynor, C Richards, K M Roberts, B J Rowlands, M Sherwood, R V Smith, A H Stevens, R C Stewart, D G Sullivan, D W W Thomas, L G Thomas, M Thomas, L J Tyler-Lloyd, G D Walker, L V Walton a T M White gysylltiad personol â Chofnod 86 "Adroddiad Drafft Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2022-2023 - Ymgynghoriad".

2) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, P M Black, J E Burtonshaw, M C Child, J P Curtice, N J Davies, A M Day, P Downing, C R Doyle, M Durke, C R Evans, V M Evans, W Evans, E W Fitzgerald, R Francis-Davies, S J Gallagher, L S Gibbard, F M Gordon, K M Griffiths, D W Helliwell, T J Hennegan, C A Holley, P R Hood-Williams, B Hopkins, D H Hopkins, O G James, L James, Y V Jardine, L R Jones, M H Jones, M Jones, P K Jones, S M Jones, E T Kirchner, M A Langstone, H Lawson, A S Lewis, M B Lewis, R D Lewis, W G Lewis, C E Lloyd, P Lloyd, I E Mann, P M Matthews, P N May, H M Morris, D Phillips, C L Philpott, S Pritchard, J A Raynor, C Richards, K M Roberts, B J Rowlands, M Sherwood, R V Smith, A H Stevens, R C Stewart, D G Sullivan, D W W Thomas, L G Thomas, M Thomas, L J Tyler-Lloyd, G D Walker, L V Walton a T M White fudd personol yng Nghofnod 87 "Diogelwch Cynghorwyr a Chefnogaeth Iddynt".

## 77. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2021.

## 78. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 79. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### a) Cydymdeimladau

#### i) Michaela Robins, Chwaer y Cynghorydd Elliott King

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar Michaela Robins, chwaer y Cynghorydd Elliott King.

#### ii) Y Cyn-gynghorydd Judith Irvin

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar y cyn-Gynghorydd Judith Irvin (Hinds bellach). Cynrychiolodd Judith Ward y Castell am gyfnod tan 1973 ar Gyngor Bwrdeistref Abertawe.

Eisteddodd pawb a oedd yn bresennol yn dawel fel arwydd o gydymdeimlad a pharch.

## 80. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### a) Addewid Gwely bob Amser

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr Awdurdod wedi ailadrodd yr Addewid Gwely bob Amser. Roedd yr addewid hwn yn rhoi sicrwydd bod gwely ar gael bob amser i bobl ddigartref yn Abertawe. Diolchodd i'r Cynghorydd A S Lewis, y Cynghorydd A Pugh a'r Swyddogion perthnasol am eu gwaith gyda phobl ddigartref gan ddweud bod dros 400 o bobl wedi cael cymorth i ddod oddi ar y stryd i gartrefi parhaol.

Ategodd y Cynghorydd A S Lewis eiriau Arweinydd y Cyngor a diolchodd i'r Swyddogion a'r Asiantaethau a fu'n ymwneud â helpu'r digartref.

### b) Sefydliad Adain Dde – Fideos

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr wybodaeth fideo sy'n cael ei chylchredeg gan Sefydliad Adain Dde yn Abertawe ynglŷn â'r defnydd o westy yng Nghanol y Ddinas ar gyfer Ffoaduriaid yn anghywir.

Mae Cyngor Abertawe wedi ceisio cefnogi ffoaduriaid h.y. y rheini sy'n ffoi rhag rhyfel, gwrthdaro neu sydd mewn angen. Nid ydym yn credu mai defnyddio gwestai yw'r ffordd briodol o ddarparu noddfa. Dywedodd fod Abertawe'n falch o fod yn Ddinas Noddfa.

Roedd Arweinydd y Grŵp Gwrthbleidiol Mwyaf ac Arweinydd y Grŵp Ceidwadol yn cefnogi sylwadau Arweinydd y Cyngor.

**c) Cymdeithas y Ffoaduriaid Iddewig - Plannu Coed**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod coeden dderw wedi'i phlannu ar dir Neuadd y Ddinas i nodi 80 mlynedd ers sefydlu Cymdeithas y Ffoaduriaid Iddewig. Mae Cymdeithas y Ffoaduriaid Iddewig yn elusen sy'n cefnogi ffoaduriaid a goroeswyr yr Holocost ledled Prydain. Diolchodd i Norma Glass am ei gwaith gyda'r Gymdeithas.

**ch) Diwrnod Hawliau Dynol – 10 Rhagfyr 2021**

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y Diwrnod Hawliau Dynol a gynhelir ar 10 Rhagfyr 2021. Dywedodd y byddai'r diwrnod hefyd yn cael ei ddefnyddio i lansio cais Abertawe i fod yn Ddinas Hawliau Dynol. Y bwriad yw anfon neges glir fod Abertawe'n lle diogel a chroesawgar i fyw.

**d) Parc Sglefrio'r Mwmbwls Trosglwyddo Tir**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y Cabinet ar 18 Tachwedd 2021 wedi cymeradwyo trosglwyddo tir i Gyngor Cymuned y Mwmbwls ar gyfer datblygu Parc Sglefrio'r Mwmbwls. Dywedodd ei fod wrth ei fodd gyda'r penderfyniad hwn.

**dd) Storm Arwen**

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r Aelod Cabinet a'r Swyddogion perthnasol a oedd wedi gweithio'n ddiflino i lanhau canlyniadau Storm Arwen.

**e) Gorymdaith y Nadolig**

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r Aelod Cabinet a'r Swyddogion perthnasol am gyflwyno Gorymdaith Nadolig ragorol.

**f) Gohirio Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15**

Croesawodd Arweinydd y Cyngor benderfyniad Llywodraeth Cymru i ohirio TAN 15 am 18 mis. Dywedodd y byddai'r amser yn cael ei ddefnyddio i weithio'n agos ar amddiffynfeydd rhag llifogydd gyda Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

**ff) Amrywiolyn Omicron COVID-19**

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at Amrywiolyn Omicron COVID-19 ac atgoffodd bawb i ddilyn y rheolau a'r rheoliadau a osodwyd i gadw pawb yn ddiogel er mwyn rheoli ymlediad y feirws.

Diolchodd i'r Swyddogion Gorfodi a Swyddogion eraill a oedd yn gweithio i gadw Abertawe'n ddiogel. Mae'r cyngor yn cymryd camau priodol yn unig mewn perthynas â COVID-19.

## 81. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

## 82. Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Safonau 2020-2021.

Cyflwynodd Jill Burgess, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2020-2021 er gwybodaeth. Roedd yr adroddiad yn amlinellu gwaith y Pwyllgor Safonau yn ystod y cyfnod hwnnw.

## 83. Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor - 2022/2023

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn manylu ar gyfrifo sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer Dinas a Sir Abertawe, ei Gynghorau Cymuned/Tref ac Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe ar gyfer 2022-2023. Mae'n ofynnol i'r cyngor bennu Sylfeini Treth y Cyngor erbyn 31 Rhagfyr 2021.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Sylfeini Treth y Cyngor ar gyfer 2022-2023.

2) Yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) 1995, fel y'u diwygiwyd, dyma fydd cyfrifiad Dinas a Sir Abertawe ar gyfer y flwyddyn 2022-2023:

| | |
|---|---|
| **Ar gyfer yr ardal gyfan** | 93,114 |
| **Ar gyfer ardaloedd Cynghorau Cymuned/Tref:** | |
| Llandeilo Ferwallt | 2,024 |
| Clydach | 2,639 |
| Gorseinon | 3,288 |
| Tre-gŵyr | 2,008 |
| Pengelli a Waungron | 441 |
| Llanilltud Gŵyr | 351 |
| Cilâ | 2,144 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 527 |
| Llangyfelach | 965 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,606 |
| Llanrhidian Isaf | 340 |
| Casllwchwr | 3,477 |
| Mawr | 758 |
| Y Mwmbwls | 10,089 |
| Penllergaer | 1,434 |
| Pennard | 1,563 |
| Penrhys | 485 |
| Pontarddulais | 2,327 |
| Pontlliw and Thircoed | 1,034 |
| Porth Einon | 478 |
| Reynoldston | 324 |
| Rhosili | 212 |

| | |
|---|---|
| Y Crwys | 712 |
| Cilâ Uchaf | 603 |
| **Ar gyfer ardal Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe** | 64,857 |

## 84. Adolygiad o'r Polisi Gamblo

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn ceisio ystyriaeth a chymeradwyaeth ar gyfer diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Gamblo.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Gamblo a mabwysiadu'r polisi diwygiedig a atodwyd yn Atodiad B.

## 85. Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yr argymhellwyd i'w fabwysiadu yng nghyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2021. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno Cynllun Gweithredu a oedd yn nodi sut y gallai'r cyngor gefnogi'r Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

**Penderfynwyd:**

1) Y dylid mabwysiadu'r Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

## 86. Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA) 2022-2023 - Ymgynghoriad.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn hysbysu'r cyngor o Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) 2022-2023 ac yn amlinellu'r penderfyniadau a gynigiwyd gan yr IRPW. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys ymateb drafft argymelledig Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i'r ymgynghoriad, a gyflwynwyd ar 8 Tachwedd 2021.

**Penderfynwyd:**

1) Y dylid nodi Adroddiad Blynyddol drafft yr IRPW ar gyfer 2022-2023.

2) Mabwysiadu'r sylwadau a nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad fel ymateb ffurfiol yr awdurdod i'r IRPW.

## 87. Diogelwch Cynghorwyr a Chefnogaeth iddynt.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn gofyn am ddarparu cymorth i bob Cynghorydd wrth iddo gyflawni'i rôl drwy gytuno mewn

egwyddor y dylai'r cyngor ariannu mesurau diogelwch priodol lle mae Cynghorwyr mewn perygl personol o fygythiad sylweddol.

**Penderfynwyd:**

1) Lle bo Cynghorydd mewn perygl personol neu fygythiad sylweddol o niwed wrth gyflawni'i rôl, y dylid rhoi ystyriaeth i ariannu mesurau diogelwch priodol.

2) Dirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Prif Swyddog Cyllid ystyried unrhyw gais am gyllid o'r fath a phenderfynu arno.

3) Y dylid cynnwys dogfen sy'n ymwneud â Diogelwch Personol Cynghorwyr yn y Pecynnau i Ymgeiswyr ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol 2022.

**88. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.**

**1) 'Cwestiynau Atodol' Rhan A**

Cyflwynwyd saith (7) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar y cwestiynau atodol.

**2) 'Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd pedwar (4) cwestiwn Rhan B nad oedd angen cwestiynau atodol ar eu cyfer.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.23 pm

**Cadeirydd**